

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 18 Ebrill 2018

Rhif Union: 01824712568

ebost: [democrataidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:democrataidd@sirddinbych.gov.uk)

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 24 EBRILL 2018** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

## **AGENDA**

### **RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

#### **2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd fel un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

#### **3 MATERION BRYG**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion bryg yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

#### **4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 20 Mawrth, 2018 (copi wedi'i amgáu).

**5 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 15 - 30)

I ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidebol a gytunwyd arni.

**6 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET** (Tudalennau 31 - 36)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd wedi'i hamgáu, a nodi'r cynnwys.

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem ganlynol o fusnes yn cael ei hystyried, oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu (fel y'i diffinnir ym mharagraffau 14 ac 15 o Ran 4, Atodlen 12A y Ddeddf).

**7 CYN YSBYTY GOGLEDD CYMRU, DINBYCH.** (Tudalennau 37 - 82)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Economi a Llywodraethu Corfforaethol (copi wedi'i amgáu) yn ceisio penderfyniad ar y parti a ffafrir i gymryd perchnogaeth o'r safle unwaith bydd y Gorchymyn Prynu Gorfodol wedi ei gwblhau.

**8 ADRODDIAD DIWEDDARU GWASANAETH MEWNOL** (Tudalennau 83 - 108)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth (copi wedi'i amgáu) ynglŷn â'r ymarfer tendro sy'n ymwneud â throsglwyddo Canolfan Ddydd Hafan Deg, Y Rhyl, a cheisio cymeradwyaeth i ddyfarnu'r contract i'r cynigydd a ffafrir.

**9 EIDDO AR RODFA'R GORLLEWIN A STRYD SUSSEX, Y RHYL** (Tudalennau 109 - 136)

I ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi wedi'i amgáu) yn ceisio cymeradwyaeth i gaffael adeiladau Cam 1 a chymryd opsiwn i gaffael adeiladu Cam 2 fel y nodir o fewn yr adroddiad.

**10 SAFLEOEDD SIPSIWN A THEITHWYR** (Tudalennau 137 - 208)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cyngorydd Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd (copi wedi'i amgáu) ynglŷn â chynigion i'r Cyngor ddiwallu'r anghenion a nodir yn Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Ddinbych.

## **AELODAETH**

### **Y Cynghorwyr**

Hugh Evans  
Bobby Feeley  
Huw Hilditch-Roberts  
Richard Mainon

Tony Thomas  
Julian Thompson-Hill  
Brian Jones  
Mark Young

### **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 20 Mawrth 2018 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc; Brian Jones, Aelod Arweiniol Prifffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Datblygu Seilwaith Cymunedol; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, a Mark Young, Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Meirick Davies, Arwel Roberts, Glenn Swingler, Rhys Thomas ac Emrys Wynne

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB); Penaethiaid Gwasanaeth: Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Swyddog Cyllid /Adran 151 (RW), Cyfleusterau, Asedau a Thai (JG), Rheolwr Prosiect – Tîm Gwybodaeth Busnes (RV) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

## PWYNT SYLW

Y Dirprwy Arweinydd, y Cyngorydd Julian Thompson-Hill, oedd Cadeirydd y cyfarfod am y rhan gyntaf yn absenoldeb yr Arweinydd, y Cyngorydd Hugh Evans, a oedd mewn cyfarfod â'r Gweinidog Llywodraeth Leol.

### 1 YMDDIHEURIADAU

Roedd y Cyngorydd Hugh Evans wedi cael ei ddal yn ôl gyda'r Gweinidog Llywodraeth Leol.

Byddai'r Cyngorydd Huw Hilditch-Roberts yn cyrraedd y cyfarfod yn hwyr.

### 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol ag eitem 5 ar y rhaglen – Ailwampio Maes Parcio Tanddaearol y Rhyl -

Y Cyngorydd Meirick Davies oherwydd ei fod yn Gadeirydd Awdurdod Tân Gogledd Cymru

Y Cyngorydd Brian Jones oherwydd ei fod yn Gyngorydd Tref y Rhyl

Y Cyngorydd Tony Thomas oherwydd ei fod yn Gyngorydd Tref y Rhyl

Datganodd y Cynghorydd Arwel Roberts gysylltiad personol ag eitem 7 ar yr agenda – Adroddiad Cyllid oherwydd ei fod yn Llywodraethwr Ysgol (Ysgol Dewi Sant ac Ysgol y Castell)

### **3 MATERION BRYS**

Caniataodd y Cadeirydd adroddiad llafar ar y penderfyniadau a wnaethpwyd o dan y darpariaethau penderfyniadau brys yng Nghyfansoddiad y Cyngor ar ôl i gyfarfod diwethaf y Cabinet gael ei ganslo.

Adroddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd bod cyfarfod diwethaf y Cabinet a drefnwyd ar gyfer 27 Chwefror 2018 wedi cael ei ganslo oherwydd tywydd garw ac roedd dwy eitem ar yr agenda nad oedd modd eu gohirio tan y cyfarfod nesaf. Roedd yr eitemau yn ymwneud â'r canlynol -

- (1) Ymateb i wahoddiad Llywodraeth Cymru i baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd â Chonwy – roedd terfyn amser ar gyfer ymateb i Ysgrifennydd y Cabinet sef 28 Chwefror 2018, a
- (2) Dyfarnu Cytundeb Gofal yn y Cartref Gogledd Cymru (eitem gyfrinachol) - roedd angen i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud hefyd cyn y byddai modd cynnal cyfarfod Cabinet arall er mwyn i gontractau gael eu gosod cyn i'r contractau eraill ddod i ben.

Roedd y Cyfansoddiad yn darparu ar gyfer amgylchiadau fel hyn o dan y Cynllun Dirprwyo Swyddogion a oedd yn datgan bod Prif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr yn cael awdurdod, neu awdurdod mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cabinet, h.y. yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd, i gymryd unrhyw gamau ar unrhyw fater yng nghylch gorchwyl y Cabinet y maent yn ei ystyried mor frys na allant aros tan cyfarfod nesaf y Cabinet cyn belled a bod unrhyw gamau tebyg yn cael eu hadrodd yn y cyfarfod nesaf a gynhelir. Yn y ddau achos mewn perthynas â'r penderfyniadau hynny, ymgynghorwyd â holl aelodau'r Cabinet trwy e-bost a chadarnhawyd y gellir gwneud y penderfyniad a bod yr Arweinydd a'r Diprwy Arweinydd wedi awdurdodi hynny. Roedd y llythyr i Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r Cynllun Datblygu Lleol wedi cael ei gylochredeg i bob aelod gan y Cynghorydd Brian Jones ers hynny.

### **4 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2018.

Tudalen 10 – Eitem 9: Cyllideb 2018/19 – Cynigion Terfynol – holodd y Cynghorydd Bobby Feeley a gynhwyswyd nodyn esboniadol gyda biliau treth y cyngor yn nodi sut y byddai'r cynnydd yn cael ei wario, yn arbennig o ran gofal cymdeithasol. Dywedwyd wrth y Cabinet, fel rhan o fesurau arbed arian, nad oedd y llyfryn esboniadol 'Eich Arian' bellach yn cael ei bostio gyda biliau treth y cyngor ond bod preswylwyr yn cael eu cyfeirio at y wybodaeth hon sydd ar gael ar wefan y cyngor.



**PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2018 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.

## **5 AILWAMPIO MAES PARCIO TANDDAEAROL Y RHYL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson Hill yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth i symud ymlaen â'r gwaith o ailwampio maes parcio tanddaearol y Rhyl a'r cyllid fel yr argymhellwyd gan y Grŵp Buddsoddi Strategol (GBS).

Roedd y Cabinet wedi cymeradwyo'r rhaglen adfywio bresennol yn y Rhyl ym mis Mawrth 2016 a oedd yn cynnwys amryw o brosiectau y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad. Roedd y maes parcio tanddaearol wedi'i leoli ger y cyfleuster parc dŵr newydd ac ystyriwyd bod sicrhau ei fod yn gwbl weithredol ac yn llenwi'r capasiti yn allweddol er mwyn cyfrannu at lwyddiant y gwaith o ddatblygu glan y môr a chanol y dref yn y dyfodol. Roedd diffygion mewn perthynas â'r maes parcio tanddaearol yn cynnwys diffyg golau, awyru a hygyrchedd ac nid oedd yn cael ei ddefnyddio yn ddigonol o gwbl. Roedd y GBS wedi cymeradwyo achos busnes ar gyfer y gwaith ailwampio am gost o £2.126m gyda'r costau cyfalaf yn cael eu hariannu trwy gymysgedd o fenthycia darbodus a Benthyciad Canol Trefi gan Lywodraeth Cymru. Byddai'r cyllid gofynnol i ad-dalu'r benthyciad yn cael ei gynhyrchu trwy referniw'r maes parcio ychwanegol.

Roedd y Cabinet yn cefnogi'r gwaith o ailwampio'r maes parcio fel prosiect allweddol yn y gwaith ehangach o ailwampio'r Rhyl ac roedd yn cydnabod ei bwysigrwydd i gyflenwi darpariaeth parcio priodol a digonol i'r datblygiad glan môr, gyda chysylltiadau i mewn i ganol y dref. Fodd bynnag, codwyd cwestiynau a cheisiwyd sicrwydd mewn perthynas â'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r prosiect, yn arbennig risgiau ariannol, ynghyd ag unrhyw fesurau lliniaru i leddfu'r rheiny. Ceisiwyd sicrwydd hefyd mewn perthynas â rheoli llif traffig a darparu arwyddion digonol cyn agor y cyfleuster parc dŵr newydd a hefyd ystyried cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol a swyddogion fel a ganlyn -

- roedd y risg na fyddai digon o referniw yn cael ei gynhyrchu o'r meysydd parcio i ad-dalu'r benthyciadau wedi cael ei gydnabod ond roedd amcangyfrifon darbodus wedi cael eu defnyddio i gyfrifo niferoedd ymwelwyr ac incwm ac roedd tybiaethau rhesymol wedi cael eu gwneud ynglŷn â defnydd ychwanegol, yn arbennig wrth ystyried y diffyg defnydd a wneir o'r safle ar hyn o bryd a'r disgwyliadau ar ôl cwblhau'r atyniadau ar gyfer ymwelwyr trwy gydol y flwyddyn, ac roedd ffactorau hysbys o'r gwaith ailwampio yn Nova hefyd wedi cael eu cymryd i ystyriaeth.
- Roedd y GBS yn hyderus y dylai'r referniw ychwanegol a gynhyrchir fod yn fwy na digon i ad-dalu'r costau. Pe na bai digon o incwm yn cael ei gynhyrchu, byddai'r ddyled yn cael ei hystyried yn bwysau corfforaethol a ariennir gan y cyngor. Cadarnhawyd fod y Benthyciad Canol Trefi gan Lywodraeth Cymru eisoes wedi'i gymeradwyo. Defnyddiwyd y Benthyciad Canol Trefi fel dull o ddarparu cyllid heb log ar gyfer cynlluniau adfywio gan arwain at referniw

ychwanegol – roedd y cyllid ar gael am bymtheg mlynedd cyn bod angen ei adalu a gellid defnyddio'r cyllid sawl gwaith o fewn y cyfnod hwnnw

- ymhelaethwyd ynglŷn â'r gwaith ailwampio arfaethedig er mwyn creu gwelliannau a sicrhau amgylchedd diogel a chroesawgar i ddefnyddwyr gyda threfniadau rheoli a diogelwch priodol a chysylltiadau at atyniadau ymwelwyr eraill a chanol y dref – roedd manylion penodol y gwaith ailwampio wedi'u cynnwys yn yr adroddiad
- byddai arwyddion priodol mewn lle i arwain ymwelwyr trwodd i'r Rhyl a'r safle ac roedd gwaith yn cael ei wneud er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr o gysylltiadau trafniadaeth gyhoeddus a fyddai mewn lle cyn i'r parc dŵr agor ym mis Ionawr 2019; o ran maes parcio coetsys roedd mesur dros dro yn cael ei roi mewn lle ar gyfer y tymor presennol gyda'r bwriad o gynnwys parc coetsys parhaol ar gyfer 2019 a thymhorau'r dyfodol i gefnogi a gwasanaethu cyfleusterau eraill
- adroddwyd am ddarn arall o waith yn ymwneud â modelu traffig yn y Rhyl fel rhan o'r rhaglen adfywio ehangach er mwyn rheoli'r cynnydd sylweddol mewn traffig o ganlyniad i'r atyniadau ymwelwyr ychwanegol yn effeithiol. Byddai adroddiadau yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet gyda chanlyniad yr arolygon traffig yn y dyfodol; er na fyddai'r gwaith hwn yn debygol o gael ei weithredu mewn pryd ar gyfer agoriad y parc dŵr newydd, byddai'n dilyn er mwyn hwyluso datblygiadau yn y rhaglen adfywio yn y dyfodol
- cadarnhawyd y byddai'r maes parcio yn cael ei farchnata fel cyfleuster ar wahân a byddai cymaint o gynlluniau cymhelliant ynghlwm wrtho ag sy'n bosibl o ystyried ei gysylltiadau ag atyniadau ac allfeydd eraill
- darparwyd sicrhau ynglŷn â'r gwaith ailwampio o ran diwydrwydd dyladwy i sicrhau bod trefniadau mecanyddol a thechnegol cadarn mewn lle gan gael gwared ar hen beirianeg fecanyddol a'i newid fel sy'n briodol. Cydymffurfir â Rheoliadau Adeiladu ac eir i'r afael ag unrhyw broblemau sy'n codi o'r broses cais cynllunio. Byddai'r cyfleuster yn amodol ar yr archwiliadau arferol a gwaith cynnal a chadw priodol.

Roedd y Cabinet yn fodlon â'r sicrhau â ddarperir ac yn cefnogi'r prosiect yn gyfan gwbl.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –

- (a) *cymeradwyo argymhelliad y Grŵp Buddsoddi Strategol i fwrw ymlaen i adnewyddu maes parcio tanddaearol y Rhyl, a*
- (b) *cyfarwyddo swyddogion i fynd ymlaen â'r camau nesaf o weithredu'r prosiect.*

Ar y pwynt hwn cymerodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans, yr awenau ac ef oedd y Cadeirydd am weddill y cyfarfod.

## **6 DILEU TRETHI BUSNES ANADFERADWY**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddiddymu Ardrethi Annomestig (busnes) nad oedd modd eu hadennill ar gyfer Graval Alok UK Ltd (a oedd yn masnachu fel Store 21,

Canolfan White Rose, Y Rhyl) lle nad oedd modd parhau â chamau adennill oherwydd bod y cwmni yn fethdalwr.

Cafodd y cwmni ei ddiddymu ym mis Ebrill 2017 a'i ddirwyn i ben ar 10 Gorffennaf 2017. Roedd yna ddyledion sylweddol yn ddyledus ac asedau cyfyngedig i wneud unrhyw daliadau yn erbyn y dyledion hyn. O ganlyniad, rhoddwyd gwybod i'r holl gredydwyr ansicredig, gan gynnwys y Cyngor, na fyddai unrhyw daliad difidend yn cael ei wneud. Cyfanswm y ddyled i'w diddymu fyddai £60,385.07 ar gyfer blynyddoedd ariannol 2016/17 a 2017/18.

Nododd y Cabinet nad oedd disgwyl i'r ardrethi busnes gael eu hadennill ac na fyddai unrhyw gost uniongyrchol i'r cyngor am ddiddymu'r dyledion gan fod y Gronfa Genedlaethol wedi gwneud hynny. Eglurwyd rôl y cyngor fel asiantaeth gasglu i Lywodraeth Cymru hefyd. Mewn ymateb i gwestiynau, dywedwyd wrth y Cabinet fod gweithdrefnau cadarn mewn lle i adfer dyledion gan fusnesau a phreswylwyr ac ymhelaethodd swyddogion am rai o'r pethau sy'n debyg ac yn wahanol am y ddau, gyda phwyslais arbennig ar y materion cyfreithiol o amgylch busnesau sy'n mynd yn fethdalwyr a'r broses weinyddol o adfer dyledion. Yn yr achos arbennig hwn roedd y bil wedi cael ei dalu'n llawn tan ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol a chyn pen ychydig ddyddiau ar ôl methu â thalu roedd y gweithdrefnau adennill perthnasol wedi cael eu gweithredu. Fodd bynnag, unwaith yr oedd busnes wedi cael ei drosglwyddo i'r gweinyddwyr roedd y cyngor yn gyfyngedig o ran y camau gweithredu y gellid eu cymryd. Sicrhawyd bod dull cyson a chadarn wedi'i ddefnyddio i adfer dyledion ym mhob achos a bod dulliau talu priodol mewn lle.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cytuno diddymu'r gwerthoedd na ellir eu hadennill fel y nodir yn Nhabl 1 yr adroddiad.

## 7 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cyngorydd Julian Thompson-Hill adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllid y cytunwyd arni. Darparodd y crynodeb canlynol o sefyllfa ariannol y Cyngor –

- rhagwelir tanwariant o £239k mewn perthynas â'r cyllidebau corfforaethol a gwasanaeth
- roedd gwerth £0.902 miliwn o arbedion effeithlonrwydd mewn gwasanaethau eisoes wedi'u cytuno yn rhan o'r gyllideb, gan ddisgwyl y byddent i gyd yn cael eu cyflawni – byddai unrhyw eithriad yn cael ei adrodd wrth y Cabinet
- amlygwyd y risgiau ar hyn o bryd a'r gwahaniaethau mewn perthynas â meysydd gwasanaeth unigol, a
- darparwyd diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys elfen y Cynllun Corfforaethol).

Dywedwyd wrth y Cabinet hefyd bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi bod £484k ychwanegol yn cael ei roi i ysgolion Sir Ddinbych i helpu â chostau cynnal a chadw a ysgwyddwyd yn ystod 2017/18 ynghyd â grant cyfalaf o £1.2m am wella priffyrdd.

Codwyd y materion canlynol wrth drafod –

- croesawyd y cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion a phrifyrdd ond gobeithir y bydd unrhyw ddarpariaeth ychwanegol yn y dyfodol yn cael ei dyrannu'n gynharach yn y flwyddyn ariannol er mwyn medru creu cynlluniau ariannol yn well
- Dywedodd y Cyngorydd Brian Jones fod arbedion wedi cael eu gwneud trwy gyllid craidd a chostau rheoli i ostwng y diffyg yn y Tîm Prosiectau Mawr o £165k i £115k. Roedd angen gostwng y ffigwr incwm ar gyfer y Tîm Prosiectau Mawr yn y flwyddyn ddilynol hefyd er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol yn well
- rhagwelir ar hyn o bryd y gellid ymateb i effaith y tywydd garw diweddar ar y gyllideb cynnal a chadw'r gaeaf yn defnyddio'r adnoddau presennol ond byddai'r mater yn cael ei adolygu'n barhaus ac roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi gofyn am help ariannol gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu i dalu am effaith y tywydd garw
- mae pryderon wedi codi am effaith y tywydd garw ar briffyrdd, coetiroedd a llwybrau troed ynghyd â'r angen am raglen trwsio a chynnal a chadw briodol, gan gynnwys goblygiadau costau, er mwyn mynd i'r afael â'r materion hynny. Amlygwyd yr effaith ehangach ar wasanaethau'r cyngor hefyd megis y rhai sy'n ddibynnol iawn ar gynhyrchu incwm a fyddai'n cael eu heffeithio'n sylweddol o ganlyniad i gau cyfleusterau. O ganlyniad cytunwyd y dylid paratoi crynodeb o'r costau ariannol i'r cyngor yn sgil y tywydd garw
- Roedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn i awdurdodau lleol am adborth am effeithiau'r tywydd garw ac felly wedi cydnabod effaith ar draws y gwasanaethau. Amlygwyd fod rhai busnesau lleol hefyd wedi cael eu heffeithio'n arw ac awgrymwyd y gallai Llywodraeth Cymru gymryd hynny i ystyriaeth hefyd
- anogwyd aelodau i adrodd am unrhyw bryderon priffyrdd drwy'r system Rheoli Cyswllt Cwsmer fel y gellir eu cofnodi'n briodol a gweithredu arnynt ond teimlai'r Cyngorydd Meirick Davies y dylid cael dull ar wahân ar gyfer gwaith brys sy'n ofynnol er mwyn osgoi unrhyw oedi gormodol
- canmolwyd gwaith y staff Priffyrdd wrth ymateb i'r tywydd garw a chynnal a chadw ffyrdd y sir a dywedodd y Cyngorydd Brian Jones y byddai'r Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol yn cynnwys gwerthfawrogiad y Cabinet yn ei ohebiaeth i'r holl staff dan sylw
- Ailadroddodd Arwel Roberts ei bryderon blaenorol am ysgolion â diffygion ariannol a'r effaith dilynol oherwydd cynnydd yn oedran pensiwn y wladwriaeth. Rhoddodd y Cyngorydd Huw Hilditch-Roberts sicrwydd ynglŷn â chadernid y cynlluniau ariannol ar gyfer pobl ysgol a oedd yn cynnwys costau cyflogau presennol.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –

- nodir cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2017/18 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth gyllid y cytunwyd arni; a*
- bod swyddogion yn paratoi crynodeb o'r gost ariannol i'r Cyngor yn sgil y tywydd garw a gafwyd y gaeaf hwn gan gynnwys amcangyfrif o'r gostyngiad mewn incwm a achoswyd o ganlyniad i hyn.*

## 8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried.

**PENDERFYNWYD** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

Cyn terfynu'r cyfarfod dywedodd yr Arweinydd mai hwn fyddai'r cyfarfod Cabinet olaf i Dr. Mohammed Mehmet, Y Prif Weithredwr. Myfyriodd yr Arweinydd am amser Dr. Mehmet gyda'r awdurdod a mynegodd ei werthfawrogiad am ei wasanaeth ffyddlon ac ymroddedig, gan drawsnewid Sir Ddinbych ac arwain yr awdurdod i fod yn un o'r cynghorau sy'n perfformio ar y lefel uchaf yng Nghymru ac yn agos i'w gymunedau. Ar ran y Cabinet presennol a'r gorffennol, dymunodd yr Arweinydd yn dda i Dr. Mehmet i'r dyfodol. Dywedodd Dr. Mehmet ei fod yn falch o gyflawniadau'r awdurdod a thalodd deyrnged i aelodau a staff am fod yn allweddol yn llwyddiant y Cyngor. Diolchodd i'r Arweinydd am ei acolâd a dymunodd yn dda i Sir Ddinbych.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.40 a.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod:	24 Ebrill 2018
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Y Cyng. Julian Thompson-Hill / Richard Weigh, Pennaeth Cyllid
Awdur yr Adroddiad:	Steve Gadd, Prif Gyfrifydd
Teitl:	Adroddiad Cyllid (Mawrth 2017/18)

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am gyllideb refeniw ac arbedion y Cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2017/18. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno o'r Cynllun Cyfalaf yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol bresennol y cyngor, a chadarnhau'r cyllidebau gwasanaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer 2017/18.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir bod Aelodau'r Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2017/18 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae'r adroddiad yn crynhoi cyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2017/18 fel y manylir yn **Atodiad 1**. Cyllideb refeniw net y Cyngor yw £189.252m (£185.062m yn 16/17). Rhagwelir y bydd tanwariant o £889k ar gyllidebau Gwasanaethau a Chorfforaethol (£239k y mis diwethaf).

Mae'r mwyafrif o'r symudiad o'r mis diwethaf (£530k) yn ymwneud â chyllidebau a gadwyd yn gorfforaethol, yn enwedig:

- Arian wrth gefn sydd wedi'i ddal yn gorfforaethol ar gyfer pwysau gwasanaeth, nad oedd yn ofynnol neu'n llai na'r hyn a ragwelwyd.
- Mae ffigurau diwedd blwyddyn a gafwyd gan Gronfa Bensiynau Clwyd wedi dangos gostyngiad llawer mwy na'r disgwyl mewn costau pensiwn hanesyddol (yn ymwneud â chyfran y cyngor o rwymedigaethau Cyngor Sir Clwyd). Er bod taliadau pensiwn unigol yn y maes hwn yn parhau i gynyddu, mae nifer y bobl sy'n hawlio yn gostwng dros amser.

Fel yr amlygwyd y mis diwethaf, os bydd sefyllfa'r cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol yn parhau i fod yn danwariant, yna dylid rhoi ystyriaeth ynghylch sut y dylai'r cyngor hwyluso'r tanwariant net. Mae'r addasiadau'n cynnwys:

1. Cynyddu Cronfa Wrth Gefn Blaenoriaethau Corfforaethol i helpu i ddarparu blaenoriaethau.
2. Cyfrannu at Gronfa Wrth Gefn Lliniaru Cyllidebau i helpu i liniaru effaith toriadau i wasanaethau yn 19/20.
3. I helpu i ail-gyflenwi'r cronfeydd wrth gefn a ddefnyddiwyd oherwydd tywydd garw - nid yw'r effaith gyffredinol yn gwbl hysbys ar adeg ysgrifennu'r adroddiad

hwn, gan fod y cyngor wedi ceisio cael arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r manylion a'r rhagdybiaethau o amgylch cyllidebau gwasanaeth yn aros yn debyg iawn i'r hyn a adroddwyd y mis diwethaf, ac mae'r prif naratif sy'n cefnogi'r asesiad hwn wedi'i gynnwys fel **Atodiad 2**. Fodd bynnag, mae £120k o'r newid o'r mis diwethaf yn ymwneud â Gwasanaethau Eiddo o fewn Cyfleusterau, Asedau a Thai, yn bennaf oherwydd y tywydd garw ym Mawrth, a arweiniodd at oedi mewn gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio. Mae Cyllid ar hyn o bryd yn gweithio'n galed i gau cyfrifon ariannol i lawr ar gyfer 2017/18, ac mae nifer o elfennau ansicr yn weddill, a all effeithio ar alldro ariannol. Mae'r prif elfennau wedi'u hamlygu isod:

- Arenillion Treth y Cyngor - nid yw ffigurau terfynol arenillion Treth y Cyngor yn hysbys eto nac wedi'u hadrodd, fodd bynnag, mae arwyddion yn dangos y bydd perfformiad ym maes Casglu Treth y Cyngor yn parhau i wella, gan arwain at fwy o arian na'r disgwyl.
- Mae nifer o ddarpariaethau'n cael eu hystyried gyda chynghor gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf o amgylch anghydfodau contract ac ailstrwythuro gwasanaethau, gan arwain at gostau ymadael o bosibl. Gallai'r eitemau hyn ddod i oddeutu £150k o bosibl.
- Er bod Llywodraeth Cymru wedi dangos y bydd arian ar gael i helpu ariannu'r pwysau sy'n ymwneud â'r digwyddiadau tywydd garw diweddar yn rhannol, rydym yn dal i aros am gadarnhad.

**Ysgolion** - Ar ddiwedd Mawrth, mae'r rhagamcaniad ar gyfer balansau ysgol yn falans diffyg net o £0.844m, sy'n welliant o £0.212m ar y balansau a ddygwyd ymlaen o 2016/17. Roedd y sefyllfa ariannol well ar gyfer ysgolion yn ddisgwyliedig, yn dilyn y cyhoeddiad diweddar gan yr Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg, bod arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (£484k wedi'i ddyrannu i Sir Ddinbych) ar gael i ysgolion i helpu gyda chostau cynnal a chadw a gafwyd yn ystod 2017/18. Y nod oedd ad-dalu ysgolion ar gyfer costau'n gysylltiedig â chynnal a chadw, fel bod modd ail-gyfeirio'r arian at wasanaethau rheng flaen yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Fel yr amlygwyd y mis diwethaf, roedd disgwyl felly y byddai balansau ysgol diwedd y flwyddyn o fudd, gan fod y grant am gael ei gymhwyso i wariant a oedd wedi'i beri gan Ysgolion eisoes. Mae cyllidebau ysgolion sydd heb eu dirprwyo yn tanwario o £146k ar hyn o bryd (£79k y mis diwethaf), oherwydd y gostyngiad mewn rhwymedigaethau pensiwn hanesyddol ers cyfnod Cyngor Sir Clwyd.

**Rheoli'r Trysorlys** - Ar ddiwedd mis Mawrth, roedd cyfanswm benthyciadau'r cyngor yn £206.192m ar gyfradd gyfartalog o 4.41%. Roedd balansau buddsoddi yn £12.6m ar gyfradd gyfartalog o 0.28%.

Mae crynodeb o **Gynllun Cyfalaf** y Cyngor yn **Atodiad 3**. Mae'r cynllun cyfalaf a gymeradwywyd yn £39.2m ac mae'r gwariant hyd yma yn £37m. Hefyd yn Atodiad 3 mae'r gwariant arfaethedig o £16.645m ar y Cynllun Corfforaethol. Mae **Atodiad 4** yn cynnwys diweddariad ar y prif brosiectau sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf cyffredinol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?



Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y Cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn sylfaen i weithgarwch ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae costau a goblygiadau wedi'u cynnwys ym Manylion yr Adroddiad (Adran 4) ac Atodiadau 1-4.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Cynhaliwyd Asesiad Lles ar elfen arbedion effeithlonrwydd cynigion y gyllideb a chyflwynwyd yr asesiad i'r Cyngor ar 31 Ionawr. Daeth yr Asesiad i'r casgliad bod y cynigion effeithlonrwydd naill ai'n gadarnhaol neu'n niwtral o'u hasesu yn erbyn y saith nod lles.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Yn ogystal â'r adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, mae proses y gyllideb wedi ei hystyried gan gyfarfodydd y Tîm Gweithredol Corfforaethol, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Briffio'r Cabinet a Briffio'r Cyngor. Cynhaliwyd gweithdai cyllideb rheolaidd gydag aelodau etholedig i archwilio cyllidebau gwasanaeth ac ystyried y cynigion o ran y gyllideb. Hysbyswyd yr holl aelodau o staff am y broses o osod y gyllideb ac ymgynghorwyd yn llawn â staff sy'n cael eu heffeithio neu bwriedir gwneud hynny, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol y Cyngor. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'n bwysig bod gwasanaethau'n parhau i reoli cyllidebau'n ddoeth a bod unrhyw arian dros ben o fewn y flwyddyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol tymor canolig, yn arbennig o ystyried graddfa'r gostyngiadau y mae'n ofynnol eu gwneud yn y gyllideb yn ystod y ddwy neu dair blynedd nesaf.

Mae pwysau penodol yn amlwg mewn cyllidebau gofal cymdeithasol (Oedolion a Phlant). Fodd bynnag, mae effeithiau'r pwysau hwn wedi cael eu hariannu gan y buddsoddiad mewn pwysau gwasanaethau yn ystod cyllideb 17/18, ad-dalu cronfeydd wrth gefn gwasanaethau ar ddiwedd blwyddyn a rhyddhau cronfeydd corfforaethol i gyd-fynd ag unrhyw orwariant sy'n weddill. Mae sefyllfa'r ddau wasanaeth yn cael ei monitro'n ofalus ac wedi ei hystyried fel rhan o broses y gyllideb ar gyfer 2018/19. Esboniodd Gweithdai Cyllideb yn yr hydref sefyllfa'r gwasanaethau hyn i holl Aelodau Cyngor Sir Ddinbych a oedd yn bresennol, a chytunwyd ar y pwysau ariannu gan y Cyngor ar 30 Ionawr. Mae rhagor o waith ar y gweill i asesu goblygiadau ariannol y pwysau hwn ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Bydd y sefyllfa o ran Balansau Ysgolion yn cael ei monitro'n agos, gydag adroddiadau i'r Aelodau bob mis. Mae Cyllid Addysg yn gweithio'n agos iawn gydag ysgolion i ddatblygu cynlluniau cadarn ac, yn ogystal, mae prif ac uwch swyddogion Addysg a Chyllid yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu'r cynlluniau hynny a chymryd unrhyw gam gweithredu yn ôl yr angen. Mae'r gyllideb a gytunwyd gan y Cyngor ar gyfer 2018/19 yn cynnwys buddsoddiad o £1.8 miliwn yng nghyllidebau dirprwyedig ysgolion.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae hwn yn parhau yn gyfnod ariannol heriol a bydd methu cyflawni'r strategaeth a gytunwyd o ran y gyllideb yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau yn y blynyddoedd ariannol presennol ac yn y dyfodol. Bydd monitro a rheoli'r gyllideb yn effeithiol yn helpu i sicrhau bod y strategaeth ariannol yn cael ei chyflawni.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.

Appendix 1

**DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL REVENUE BUDGET 2017/18**

Mar-18	Net Budget 2016/17 (Restated) £'000	Budget 2017/18			Projected Outturn							Variance Previous Report £'000
		Expenditure £'000	Income £'000	Net £'000	Expenditure £'000	Income £'000	Net £'000	Expenditure £'000	Income £'000	Net £'000	Net %	
Customers, Communications and Marketing	2,696	3,181	-338	2,843	3,407	-455	2,952	226	-117	109	3.83%	109
Education and Children's Service	14,126	26,907	-13,953	12,954	29,097	-15,657	13,440	2,190	-1,704	486	3.75%	486
Business Improvement and Modernisation	4,572	5,398	-785	4,613	5,699	-1,134	4,565	301	-349	-48	-1.04%	-48
Legal, HR and Democratic Services	2,396	3,949	-1,326	2,623	4,087	-1,483	2,604	138	-157	-19	-0.72%	-19
Facilities, Assets and Housing	6,965	22,704	-15,096	7,608	23,614	-16,221	7,393	910	-1,125	-215	-2.83%	-95
Finance	2,888	5,260	-2,346	2,914	5,200	-2,286	2,914	-60	60	0	0.00%	0
Highways and Environmental Services	17,065	33,279	-15,893	17,386	34,046	-16,407	17,639	767	-514	253	1.46%	253
Planning and Public Protection	2,941	5,943	-2,958	2,985	6,076	-3,091	2,985	133	-133	0	0.00%	0
